



Adroddiad Blynyddol



Antur Nantlle Cyf
2007 / 2008

GAIR GAN Y CADEIRYDD



Cyng O P Huws

Pleser yw cyflwyno adroddiad blynyddol Antur Nantlle.

Unwaith eto mae'n destun diolch i bawb a fu'n cyfrannu at waith yr Antur yn ystod y flwyddyn a fu, yn arbennig felly i Beryl, Dafydd a gweddill staff yr Antur, a'i phartneriaethau.

Mae'r Antur yn ddyledus iawn i'n cyfarwyddwyr am eu hymroddiad yn nhermau amser, arbenigedd, a'u dyfal parhad.

Diolch hefyd i'r holl gyrff y bu i ni gyd-weithio a nhw am eu cefnogaeth i greu cyfleoedd i bobol y Dyffryn.

Pleser gwirioneddol oedd croesawu aelodau newydd i'n grwpiau gweithredu eleni, 'rwy'n hyderus daw syniadau ac egni newydd yn eu sgil. Mae eto le i fwy o ysgwyddau tan yr olwyn cofiwch!

Yn anffodus tydi hi ddim wedi bod yn flwyddyn dda ar gyfer grantiau sylweddol i wireddu cynlluniau o faint, ond serch hynny fe gafwyd blwyddyn o brysurdeb, gyda'r Ganolfan Dechnoleg yn galon i'r cyfan. Mae'r Antur yn dal i wyntyllu syniadau a ffynonellau arian i hyrwyddo lles y Dyffryn, ac er ei bod yn amser digon pryderus i'r economi yn gyffredinol byddwn yn parhau ein hegnïon i sicrhau ffyniant i economi, ac i bobol Dyffryn Nantlle.


Byddai'n meddwl weithiau mai ychydig iawn o bobol sydd yn sylweddoli nad corff statudol yw'r Antur hefo arian yn dod o ryw gronfa ganolog nefolaidd i weithredu. Mae'n eitha' posib mai felly mae rhai cyrff cyhoeddus eraill yn ein gweld ni hefyd ar adegau ! Gall llwyddiant fod yn anfantais weithiau.

Mae'r Antur yn llwyddo ar ymdrechion ei hun, ac mae wedi gweithio yn ddyfal dros yr ardal, ac yn parhau i wneud hynny. Anodd fuasai dychmygu Dyffryn Nantlle heb gyfraniad Antur Nantlle i fywyd cymunedol ac economaidd erbyn hyn. Ymlaen bo'r nod!


Diolch i bawb a fu'n ymwneud a'r Antur, a diolch am yr anrhydedd o fod yn Gadeirydd ar y corff arbennig hwn.

Cynghorydd O.P. Huws.

BWRDD RHEOLI ANTUR NANTLLE CYF 2007 - 2008



Alun Ffred Jones AC
Llywydd Anrhydeddus



Cyng. O P Huws
Cadeirydd



Dafydd Owen
Is-gadeirydd



John Pritchard



Talfryn Griffiths



Cyng. Dyfed Edwards



Elwyn Jones Griffith



Gwynne Williams



Ben Gregory



Ifan Glyn Jones.....



Richard Wyn Huws

BWRDD RHEOLI ANTUR NANTLLE CYF

Alun Ffred Jones (Llywydd Anrhydeddus)
O.P.Huws (Cadeirydd)
Dafydd Owen (Is-gadeirydd)
John Pritchard
Talfryn Griffiths
Elwyn Jones Griffith
Dyfed Wyn Edwards
Gwynne Williams
Ben Gregory
Ifan Glyn Jones
Richard Wyn Huws

Aelod Cynulliad
Cynghorydd Gwynedd
Cyfarwyddwr Gwasg Dwyfor
Cyfrifydd
Cyfreithiwr
Prifathro wedi ymddeol
Cynghorydd Gwynedd
Peiriannydd gwresogi
Swyddog Cymuned Tai Eryri
Prifathro wedi ymddeol
Hunan gyflogedig

YSGRIFENNYDD ANTUR NANTLLE CYF



Beryl Fretwell

Cynhaliwyd 6 chyfarfod o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn ynghyd ac un Cyfarfod Arbennig.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 8fed Dachwedd 2007

Yn unol â'r drefn ymddeolodd pedwar o gyfarwyddwyr o'r Bwrdd – Gwynne Williams, Ben Gregory, Dyfed Edwards ac Ifan Glyn Jones.

Ail etholwyd y pedwar.

STAFF ANTUR NANTLLE

Dafydd Glyn Owen
Beryl Fretwell
Dafydd Henry Williams
Wena Roberts
Nick Thomas
Glenys Ll Williams
Bet Hughes
Nerys Pritchard
Nia Wyn Noone

Swyddog Menter
Swyddog Gweinyddol
Cydlynnydd Cymunedau'n Gyntaf Ward Talysarn
Swyddog Gweinyddol Cymunedau'n Gyntaf
Cymhorthydd Ieuenctid Cymunedau'n Gyntaf
Swyddog Datblygu Cymunedau'n Gyntaf
Gofalwraig y Ganolfan Dechnoleg
Gofalwraig y Ganolfan Fenter
Gofalwraig Tŷ Iorwerth

BANCWYR
HSBC Cangen Caernarfon

ARDAL ANTUR NANTLLE

Mae Antur Nantlle Cyf yn gweithredu yn ardal Dyffryn Nantlle a'r pentrefi cyfagos sy'n cynnwys: –

Carmel, Clynnogfawr, Dinas Dinlle, Y Fron , Y Groeslon, Llandwrog, Llanllyfni, Nantlle, Nasareth, Nebo, Penygroes, Pontllyfni, Talysarn, Tanrallt.

CYFLAWNIADAU 2007 / 2008

Swyddi wedi eu creu neu eu gwarchod	67
Nifer wedi cael budd o'r gwasanaethau a gynigir	2500
Nifer a dderbyniodd hyfforddiant	82
Mudiadau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth	15

CYFARFOD, TRAFOD A CHYDWEITHIO

gyda

Cyngor Gwynedd, Partneriaeth Talysarn a Nantlle, Ymddiriedolaeth Tir Dyffryn Nantlle, Cyfeillion Cae'r Gors, Y Ganolfan Gwaith, Cwmni Gyrfa Cymru, Coleg Harlech / WEA, Coleg Menai, Prifysgol Cymru Bangor, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, Grŵp Gwefan Dyffryn Nantlle, Mantell Gwynedd, Menter a Busnes, Y Bwrdd Iechyd Lleol, Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Gwynedd, Cymorth i Ferched Cymru, Tai Eryri, Ysgol Dyffryn Nantlle, Heddlu Gogledd Cymru, Grŵp Llys Llywelyn, Grŵp Canolfan Cymdeithasol Talysarn, Gŵyl Fai Dyffryn Nantlle, Cyngor Cymuned Llanllyfni, Deudraeth Cyf, Cymunedau@eiGilydd, Menterra, Grŵp Amgylcheddol Talysarn, Y Gronfa Fuddsoddi Gymunedol a nifer eraill o grwpiau a chymdeithasau yn y gymuned.

SWYDDOG MENTER ANTUR NANTLLE

Dafydd Glyn Owen

01286 882688 / 07796364279 / dafydd@anturnantlle.com



Fel Swyddog Menter Antur Nantlle mae gan Dafydd ystod eang iawn o ddyletswyddau. Bu'n gwneud ei orau i'r tenantiaid drwy gydol y flwyddyn ac ef sydd yn gyfrifol am drefnu rhaglen cynnal a chadw safleoedd yr Antur – gwaith holl bwysig. Bu'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ac is-grwpiau Antur Nantlle, cyfarfodydd Partneriaeth Talysarn a Nantlle ac Ymddiriedolaeth Tir Dyffryn Nantlle ynghyd a chyfarfodydd gyda chyrrff a sefydliadau amrywiol yn rhinwedd ei swydd.

Mae Dafydd yn barod bob amser i groesawu unrhyw un sydd eisiau trafod gweithgareddau lleol, cychwyn busnes yn yr ardal, chwilio am unedau a swyddfeydd neu sydd â diddordeb mewn ymuno ag is-grwpiau'r Antur.

Mae hefyd wedi bod yn arwain ar nifer o brosiectau yn ystod y flwyddyn:-

- **Astudiaeth i ail-gylchu cyfrifiaduron** Cymunedau@eiGilydd

Mae pwyslais mawr y dyddiau hyn i leihau maint y gwastraff gwenwynig a aiff i safleoedd tirlenwi - er enghraifft trwy gymell mwy o ailgylchu ac ailddefnyddio cyfarpar electronig megis cyfrifiaduron. Wrth ystyried cyflymder datblygiadau ym myd technoleg gwybodaeth â'r nifer o hen gyfrifiaduron sydd o gwmpas penderfynodd yr Antur ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o ailgylchu cyfrifiaduron. Y bwriad oedd gweld a fyddai cyfrifiaduron wedi eu hadnewyddu yn fodd i ddiwallu anghenion TG mewn ardal ddifreintiedig ac ar yr un pryd gynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant, cymorth a chyflogaeth yn yr ardal.

Cyflwynodd y Swyddog Menter gais llwyddiannus i Cymunedau@eiGilydd am gyllid i gwblhau astudiaeth ddichonoldeb i ailgylchu cyfrifiaduron wedi ei seilio ar ardal Talysarn a Nantlle a chomisiynwyd Ymgynghoriaeth Jacal Cyf i ymgymryd â'r gwaith.

Derbyniwyd yr Adroddiad terfynol yn Chwefror 2008 ac mae iddi ddwy ran. Mae'r gyntaf yn ymwneud â'r agweddau technegol o adnewyddu/ailgylchu cyfrifiaduron ac yn ymdrin yn drylwyr â'r datblygiadau diweddaraf, deddfwriaethau, costau a gwerthoedd ailwerthu.

Mae'r ail wedi'i seilio ar arfarniad cymunedol cynhwysfawr. Bu Dafydd yn dosbarthu 250 o holiaduron o amgylch aelwydydd Talysarn a Nantlle a chysylltodd gyda grwpiau lleol er mwyn mesur maint y farchnad bosibl a chasglu data ynghylch y defnydd o gyfarpar TG yn yr ardal

Bydd yr Antur yn ystyried y ffordd orau o weithredu ar yr adroddiad, ond yn y cyfamser os oes grwp neu unigolyn yn awyddus i wybod mwy, mae'r adroddiad llawn i'w gweld yn y Ganolfan Dechnoleg.

- **Traed Trysor Ifanc**



Ann Evans o'r Brifysgol ym Mangor

Nod y cynllun hwn, a ddaeth i ben yn ystod yr Hydref, oedd hybu plant ifanc a'u rhieni ac aelodau hŷn y teulu i werthfawrogi gweithgareddau awyr agored drwy gymryd rhan mewn teithiau cerdded yn Nyffryn Nantlle. Mae Antur Nantlle yn falch o fod wedi cael y cyfle i gyd-weithio hefo'r Dr Claire Paisley ac Ann Evans, Prifysgol Cymru Bangor ac Ann Owen o'r Bwrdd Iechyd Lleol ar y cynllun.



Dau o bobl ifanc Talysarn wedi gwisgo mewn dillad clown ar gyfer taith o amgylch llyn Gloddfa Glai Talysarn



Sam Tan a Sali Mali yn croesawu'r plant yn ol i Neuadd Goffa Penygroes yn dilyn y daith gerdded olaf



Dafydd yn cyflwyno tystysgrifau i rai o blant Talysarn ar ol iddynt gwblhau nifer o'r teithiau yn llyfr Camau Cudd Dyffryn Nantlle

Trefnwyd 6 taith gyda chymeriadau arbennig yn ystod gwyliau'r haf - roedd cymeriadau fel Sali Mali a Sam Tân yn help i ddenu plant a'u teuluoedd allan i gerdded. Bu'r cynllun yn hwb sylweddol i ennyn diddordeb pobl mewn cerdded, cafodd criw o famau ifanc lleol gyfle i ddysgu sgiliau arweinwyr teithiau a chymdeithasu ar yr un pryd. Roedd y plant wrth eu boddau yn dilyn cyfarwyddiadau a chwilio am arwyddion arbennig wrth gerdded y llwybrau.

Mae llyfryn Camau Cudd Dyffryn Nantlle wedi bod yn boblogaidd iawn a llawer wedi mwynhau cerdded y teithiau ar liwt eu hunain neu fel rhan o'r cynllun ac mae'n dda gweld grŵp cerdded wedi cychwyn yn y Dyffryn erbyn hyn. Mae copïau o'r llyfryn ar gael o hyd yng Nghanolfan Dechnoleg Antur Nantlle.

- **Canolfan Awyr Agored i Ddyffryn Nantlle**

Yn dilyn cyhoeddi Astudiaeth ar Dwristiaeth yn Nyffryn Nantlle mae Grwp Twristiaeth Antur Nantlle wedi adnabod yr angen am ddatblygu adnoddau twristiaeth yn y Dyffryn yn enwedig y diffyg llefydd i bobl aros yn yr ardal. Mae Dafydd wedi cychwyn trafodaeth gyda'r Gronfa Fuddsoddi Gymunedol er mwyn ymgeisio am arian i baratoi astudiaeth / cynllun busnes i sefydlu Canolfan Awyr Agored yn Nyffryn Nantlle.

- **Cyfeirlyfr Busnes Dyffryn Nantlle ar www.nantlle.com**

Cyflwynodd y Swyddog Menter gais llwyddiannus am nawdd rhaglen Cymunedau@eiGilydd drwy gwmni Deudraeth Cyf i gasglu gwybodaeth am fusnesau Dyffryn Nantlle a'u rhoi fel Cyfeirlyfr Busnes ar wefan www.nantlle.com

Trwy gydweithrediad rhwng yr Antur, cwmni Robot Jones - Liquidclick.com a grwp gwefan Dyffryn Nantlle mae dros 250 o fusnesau'r ardal wedi eu rhestru ar y Cyfeirlyfr. Gan fod y wefan yn derbyn rhwng 8,000 - 10,000 o ymwelwyr bob mis mae hwn yn gyfle gwych i fusnesau lleol gyrraedd marchnad newydd a chael lle ar y we yn rhad ac am ddim. Mae digon o le eto i ehangu'r cyfeirlyfr dim ond i fusnesau gysylltu â'r Antur yn y Ganolfan Dechnoleg neu drwy post@nantlle.com

CANOLFAN DECHNOLEG ANTUR NANTLLE CYF

20 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR 01286 882688



Y Ganolfan Dechnoleg yw Swyddfa Gofrestredig yr Antur ac oddi yma mae'r Swyddogion yn gweithio. Dyma ganolbwynt i weithgareddau'r Antur ac mae'r drws ar agor i bawb o drigolion y Dyffryn a chroeso iddynt gysylltu â ni yn y Ganolfan.

Yn y ffenestri mae pob math o bosteri sy'n brawf fod gennym gymuned weithgar, fywiog a hefyd mae digon o dystiolaeth fod plant (a rhai hŷn) y Dyffryn yn rhai da am chwarae pêl droed. Llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiant - rydym wrth ein bodd yn gweld y cwpanau a'r tariannau yn cyrraedd.

Diolch i Elwyn am sicrhau fod pawb yn gweld garddwyr mor dda sydd gennym yn Nyffryn Nantlle drwy ddod a lluniau cystadleuaeth gerddi y Cyngor Cymuned i'w rhoi yn ffenest y Ganolfan. Elwyn sydd yn sicrhau hefyd fod gennym goeden Nadolig fawr ym Mhenygroes ar do bach y Ganolfan - gobeithio y bydd y Cyngor Cymuned yn cytuno i ni gael un eto eleni.

Mae cyrsiau ar y cyfrifiadur yn cael eu cynnal yn yr ystafell hyfforddiant a chroeso i bawb alw heibio i holi beth sydd ar gael. Diolch i Adran TG y Cyngor am edrych ar ôl y cyfrifiaduron i ni. Diolch i Goleg Harlech / WEA am gydweithio ers bron i ddeng mlynedd i gynnig darpariaeth safonol o hyfforddiant gyfrifiadurol ym Mhenygroes. Rydym hefyd wedi cydweithio hefo'r Brifysgol a Menter a Busnes i gynnal nifer o gyrsiau.

Mae gennym lungopiwr, peiriant ffacs, cyswllt i'r we, defnydd cyfrifiaduron, cyrsiau cyfrifiadur a chyswllt ffôn uniongyrchol rhad ac am ddim i'r Ganolfan Byd Gwaith Mae defnydd cyfrifiaduron y Ganolfan am ddim i'r rhai sydd yn chwilio am waith. Mae'r heddlu wedi gosod bocs awgrymiadau yn y cyntedd felly os oes gennych syniadau neu gwynion i'r heddlu lleol galwch heibio'r Ganolfan.

Yr ydym yn bwynt ailgylchu papur o bob math a chetris cyfrifiaduron.

Diolch yn fawr unwaith eto i Bet am gadw'r Ganolfan a Siop 22 yn lân ac yn dwt bob amser.

LLYFRGELL PENYGroES

01286 880427

Mae staff yr Antur a staff y Llyfrgell wedi gweithio ochr yn ochr ers 1998 ac mae'r cydweithio wedi bod yn hapus iawn. Mae Janice ac Anwen wedi bod yn rhannu'r gwaith yn ystod y flwyddyn ac mae ceisio trefnu fod pawb yn cael cyfle ar gyfrifiadur yn dipyn o gamp gan fod cymaint o alw am y gwasanaeth.

Mae'r Llyfrgell yn rhan annatod o'r gymuned leol ac nid llyfrau a chyfrifiaduron yw'r unig bethau sydd yn cael eu cynnig. Mae Siôn Corn wedi bod yn ymwelydd cyson dros y blynnyddoedd, yn ystod mis Mai bydd staff y Llyfrgell yn trefnu cystadlaethau yn y llyfrgell i gyd-fynd a Gŵyl Fai Dyffryn Nantlle ac yng nghyfnod gwyliau'r haf darperir gweithgareddau amrywiol, hwyliog i blant bach.



Prysurdeb yn un o'r sesiynau crefft



Mae'n rhaid fod hon yn stori dda!!

**SWYDDOG ADFYWIO BRO GWYRFAI NANTLLE
CYNGOR GWYNEDD**

Y Swyddfa Adfywio, Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle, 20 Heol y Dŵr, Penygroes
01286 882968



Kelvin Roberts

Mae Kelvin wedi treulio blwyddyn brysur yn cynorthwyo grwpiau a mudiadau lleol - yn cynnwys Antur Nantlle - gyda cheisiadau grant at wahanol brosiectau. Mae wedi bod yn allweddol i lwyddiant cynlluniau Neuaddau pentref Carmel a'r Groeslon, Cwt y Band yn Nhalysarn, ystafell gyfrifiaduron Canolfan Talysarn ac Ymddiriedolaeth Tir Dyffryn Nantlle. Mae'r Swyddogion Bro yn rhan hanfodol bwysig o'r gadwyn sydd yn cysylltu'r Cyngor a'r cymunedau - nhw yw'r cyswllt cyntaf ac mae cael rhywun wrth law sydd yn barod i helpu a gydag arbenigedd yn y maes wedi bod yn fodd i brosiectau ddatblygu yn llawer cynt ac yn rhwyddach. Diolch i Kelvin am fod mor barod gyda'i gyngor a'i gymorth bob amser.

YMDDIRIEDOLAETH TIR CYMUNEDOL DYFFRYN NANTLLE (Ymtic) 07970574068



Dafydd Watts

Swyddog Datblygu Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Dyffryn Nantlle

Mae'r Antur drwy'r Swyddog Menter yn falch o fod wedi cynorthwyo'r Ymddiriedolaeth gyda pharatoi ceisiadau llwyddiannus i Gronfa Allweddol Gwynedd a'r Tudor Trust am gyllid i gyflogi Swyddog Datblygu.

Pleser yw croesawu Dafydd Watts, a benodwyd yn Swyddog Datblygu'r Ymddiriedolaeth ym mis Tachwedd 2007, i'w swyddfa yn y Ganolfan Dechnoleg. Bydd y cwmni yn sicr o elwa o brofiad ac ymroddiad Dafydd wrth iddo baratoi Cynllun Busnes a chreu partneriaethau i gydwethio ar gynlluniau fydd yn ateb y galw am dai fforddiadwy yn lleol.

CANOLFAN FENTER DYFFRYN NANTLLE
Ffordd Llanllyfni, Penygroes LL54 6DB



Bu'r unedau oll yn llawn drwy gydol y flwyddyn yn y Ganolfan Fenter a nifer o ymholiadau wedi dod i law am unedau gwag. Llongyfarchiadau i'n gofalwraig Nerys ar ei phriodas ar Orffennaf 3ydd a diolch iddi am ei gwaith yn edrych ar ôl y safle.

Bu cryn ddefnydd ar yr Ystafell Gyfarfod hefyd yn cynnwys cyrsiau Cymraeg gan y Brifysgol ddwywaith yr wythnos, ac fel ystafell ddosbarth allanol achlysurol i Ysgol Dyffryn Nantlle. Dyma fan cyfarfod Bwrdd Rheoli ac is-bwyllgorau Antur Nantlle ac mae'n fan cyfarfod hwylus i lawer o bwyllgorau a chyrsiau eraill yr ardal hefyd.

Cynllun Ffensio Stad Ddiwydiannol Penygroes



Yn ystod y cyfnod hwn gweithredwyd cynllun uwchraddio'r stad ddiwydiannol ym Mhenygroes – prosiect ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd, Cronfa Adfywio Lleol (Llywodraeth Cynulliad Cymru) ac arian Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Antur yn gwerthfawrogi'r cyfle a gafwyd i gydweithio ar y cynllun a'r gwaith arbennig sydd wedi ei wneud yn ffensio o amgylch y Ganolfan Fenter a gosod giât ac arwyddion newydd.



Rhestr tenantiaid y Ganolfan Fenter yn glir i bawb eu gweld ar yr arwyddion newydd

SIOP/GWEITHDY, 35 STRYD YR WYDDFA, PENYGGROES



Ers bron i ddeng mlynedd bu cwmni Connect yn masnachu o 35 Stryd yr Wyddfa ond bellach daeth yn amser i symud ymlaen ac rydym yn dymuno yn dda i Martin Lewis gyda'i gynlluniau yn y dyfodol. Mae gennym felly siop a gweithdy ar gael i'w gosod. Cysylltwch â'r Swyddog Menter ar 01286 882688 am fanylion ychwanegol.

Siop 22

10 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR



Mae lleoliad Siop 22 yn hwylus iawn ar y stryd fawr ym Mhenygroes ac mae'r pedair swyddfa yn llawn.



Gruff Owen

Cwmni Matom yw tenantiaid y llawr gwaelod ac mae Gruff Owen yn gweithio i Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru yn swyddfa 2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn i'w gofal adeiladau crefyddol diangen sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Am fwy o wybodaeth am waith yr Ymddiriedolaeth cysylltwch â Gruff ar 01286 881365

Cymorth Cynllunio Cymru sydd wedi sefydlu yn swyddfa 3 gyda Marika Fusser wrth y llyw. Mae'r elusen yn darparu cyngor a chymorth proffesiynol ac annibynnol am ddim ar faterion cynllunio gwlad a thref yng Nghymru. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch a Marika yn y swyddfa ar 01286 882834 / www.cymorthcynllunio.cymru.org.uk



Marika Fusser, Gweithiwr Datblygu'r Gogledd a'r Canolbarth, Cymorth Cynllunio Cymru

Am bob math o waith dylunio graffig ar y cyfrifiadur a chynhyrchu gwefannau cysylltwch â Justin Davies o Gringo Designs yn Swyddfa 4 ar 01286 882561.



Justin Davies o Gringo Designs



Y BARICS
Nantlle, Caernarfon, Gwynedd LL54 6BD

Pleser bob amser yw ymweld a safle'r Barics yn Nantlle gan ei bod wedi ei lleoli mewn lle mor hyfryd



Uned 1

Yn Uned 1 mae Patrick Brennan gyda'i gwmmi Eryri Mouldings.



Uned 2

Mae gweithgareddau Llys Llywelyn bob amser yn denu cynulleidfa dda o drigolion Nantlle a'r cylch

Peter a Wendy Midwinter gyda 'Railways Unlimited'sydd yn Uned 3, sef cwmni yn trwsio, gwerthu a threfnu arddangosfeydd o drenau bach.

Ar ôl pedair blynedd fe ddaeth tenantiaeth Jan Chipps yn Uned 4 i ben - dymunwn bob llwyddiant iddi gyda'i chynlluniau yn y dyfodol.



Uned 3



Uned 5

Christine Matthews sydd yn gwneud gwaith celf yn Uned 5 tra'n gweithio tuag at ennill Gradd yn y Coleg ym Mangor.

Tŷ IORWERTH
39 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6ES



Mae'n anodd credu fod bron i 5 mlynedd ers i'r Antur gwblhau cynllun Tŷ Iorwerth, cynllun sydd wedi helpu i sicrhau parhad y banc yn yr ardal a diogelu un o adeiladau pwysicaf pentref Penygroes

BANC YR HSBC

Mae'r banc yn gweithredu ar y llawr gwaelod fel arfer ac ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener am 2½ awr y dydd.

CYMORTH I FERCHED CYMRU – Llinell gymorth trais yn y cartref 0808 8010800
(Swyddfa 1, 2, 3, 4 a 5)



Tracy Owens Rheolydd y
Llinell gymorth hefo un o'i
chydweithwyr

Mae'r llinell gymorth yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol dwyieithog 24 awr y dydd i ferched, plant a dynion sy'n dioddef camdriniaeth yn y cartref. Mae'r Antur yn falch o gynnig canolbwynt i'r holl waith pwysig hwn ym Mhenygroes

Cris Jones sydd yn Swyddfa 6 yn gweithio fel cyfieithydd a Ben Gregory yn Swyddfa 7 gydag Ymgyrch Nicaragua.




Cris Jones

**RHOI CYMUNEDAU'N GYNTAF
PARTNERIAETH TALYSARN A NANTLLE 01286 881103**



Glenys William
Swyddog Datblygu



Dafydd Williams
Cydlynnydd



Wena Roberts
Cymhorthydd
Gweinyddol



Nick Thomas
Cymhorthydd Ieuentid

Yn 2003 y cychwynnodd yr Antur weithredu fel Corff Atebol / Derbynnnydd Grant i Raglen Llywodraeth y Cynulliad - Rhoi Cymunedau'n Gyntaf - yn Nhalysarn a Nantlle ac rydym yn falch o weld y ddau bentref yn cael budd o'r rhaglen. Dyma'r tro cyntaf ers diwedd y diwydiant llechi i'r ward gael sylw arbennig a ffynhonnell ariannol tymor hir i godi parch a hyder yn lleol. Prif nod y Rhaglen yn y pendraw yw gwella ansawdd byw, creu cyflogaeth a dod a gwelliannau economaidd i'r ardal. Dan arweiniad Dafydd Williams y cydlynnydd, bu Partneriaeth Talysarn a Nantlle yn cyfarfod yn rheolaidd i drin a thrafod sut i gael y gwerth gorau i'r ardal o'r rhaglen werthfawr hon. Mae swyddfa'r Partneriaeth wedi ei lleoli yng Nghanolfan Talysarn a bydd y Cydlynnydd ar gael yn Llys Llywelyn Nantlle bob dydd Mercher.

Mae staff ychwanegol wedi eu penodi yn ystod y flwyddyn. Daeth cyfnod Gareth Jones i ben fel Cymhorthydd Ieuenctid wrth iddo ddilyn ei yrfa fel athro a phenodwyd Nick Thomas i'r swydd. Mae Nick yn un o 'hogia Nant' ac edrychwn ymlaen at gydweithio hefo Nick a gweld prosiectau gyda phobl ifanc yr ardal yn datblygu wrth iddo ymgyfarwyddo a'r swydd..



Criw o bobl ifanc gymerodd ran mewn dau ddiwrnod o weithgareddau awyr agored dan arweiniad Nick

Mis Ionawr 2008 penodwyd Glenys Lloyd Williams fel Swyddog Datblygu. Bydd Glenys yn cynorthwyo grwpiau'r ardal i symud ymlaen gyda gwahanol brosiectau ac yn helpu i sefydlu grwpiau newydd. Dyma'r amser i feddwl am welliannau i'r ardal i'w gweithredu gyda chymorth ac arweiniad y Swyddog newydd.

Un o brif weithgareddau'r flwyddyn oedd cynnal ymgynghoriad Planning for Real® yn Nhalysarn a Nantlle. Mae canlyniadau'r arolwg wedi eu cyhoeddi fel adroddiad gynhwysfawr fydd yn cael ei defnyddio gan Bartneriaeth Talysarn a Nantlle fel sail i baratoi Cynllun Gweithredu i'r ardal. Mae'r adroddiad llawn i'w gweld ar www.nantlle.com/planning-for-real.htm



Planning for Real®- Model 3D o'r ardal wedi ei baratoi i raddfa a ddefnyddiwyd i ysgogi pobl leol i feddwl am y ffyrdd gorau i wella'r ardal

Edrychwn ymlaen at gydweithio a chynorthwyo'r Bartneriaeth gyda'u gwaith wrth iddynt edrych ymlaen i'r dyfodol a chynllunio prosiectau fydd yn gwneud gwahaniaeth i ward Talysarn.

DIWEDDGLO



Golygfa werth ei gweld o Heol y Dŵr hefo'r Ganolfan Dechnoleg ar y llaw chwith a Thŷ Iorwerth ar y llaw dde - dau leoliad pwysig yng nghanol pentref Penygroes sydd ym mherchnogaeth Antur Nantlle ac ynghyd a phedwar o leoliadau eraill o fewn y Dyffryn mae digon o reswm i'r Antur longyfarch eu hunain

.....

Diwedd y 17^{eg} flwyddyn yn hanes Antur Nantlle ac mae'r cwmni yn dal i weithredu yng nghanol cymuned Dyffryn Nantlle, o hyd yn chwilio am gynlluniau newydd i'w gweithredu er budd yr ardal.

Mae cyfnod cyffrous o'n blaenau wrth i is-grwpiau'r Antur ddenu aelodau newydd sydd wedi dangos diddordeb mewn ymuno a'r gwaith. Ar ôl cyhoeddi Astudiaeth ar Dwristiaeth yn Nyffryn Nantlle, mae Grwp Twristiaeth Antur Nantlle wedi cychwyn o ddifri ar drafodaethau i wella darpariaeth i dwristiaid o fewn yr ardal. Mae'r Is-grwp Diwydiant ac Economi yn ystyried bob math o ail-gylchu, ynni hydro, biomas a llawer mwy. Mae gweld cyflwr Y Fic yn sgwar Penygroes yn achos pryder mawr – a oes gan drigolion yr ardal syniad gwych i ddatblygu'r safle??

Edrychwn ymlaen i weld datblygiadau ddaw yn sgil y camau nesaf yn rhaglen Cymunedau'n Gyntaf. Mae Antur Nantlle yn barod i fod o gymorth i helpu unrhyw brosiectau i ddatblygu yn y rhan hynod hon o Ddyffryn Nantlle.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithio hefo Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Dyffryn Nantlle a byddwn yn dilyn datblygiad y cwmni yn agos iawn ac yn dymuno pob llwyddiant i'w cynlluniau

Mae cryn aros i weld sut a phryd y bydd arian Cydgyfeiriant yn cyrraedd Dyffryn Nantlle - gobeithiwn y bydd rôl i'r Antur ynghanol yr holl ddatblygiadau arfaethedig. Mae gennym arbenigedd ar y Bwrdd Rheoli a phrofiad helaeth o weithredu cynlluniau cymunedol – mae gennym record arbennig o lwyddiant ar draws y blynyddoedd – pob cynllun wedi ei gwblhau i safon.

Rydym yma i wrando a thrafod syniadau – gweithio gyda'n gilydd fel cymuned yw'r ffordd orau i warchod a gwella ein cymunedau. Byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sydd a diddodeb mewn ymuno a ni i 'weithio er lles yr ardal'.



Antur Nantlle Cyf
Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle
20 Heol y Dŵr, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd LL54 6LR

01286 882688
ymholiadau@anturnantlle.com
Cofrestrwyd yng Nghymru Rhif Cwmni 2618216
Rhif TAW 560 0367 68



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



communities first *cymunedau yn gyntaf*



Communities @One
Cymunedau @Ei Gilydd



 Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru